



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 7 Ebrill 2020 am 5.00yh  
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 7 Ebrill 2020 at 5.00pm  
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan

**Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors** Shan Williams (yn y gadair/in the chair),  
Clive Davies a Mrs Eleri Maskell (clerc/clerk).

**Cynhaliwyd y cyfarfod tu ôl i ddrysau caeëdig oherwydd rheoliadau yn ymwneud â Covid-19.**

The meeting was held behind closed doors due to regulations relating to the outbreak of Covid-19.

## 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

**Croesawodd y Maer y Dirprwy Faer a'r clerc i'r cyfarfod a chyfeiriodd at y cyfnod rhyfedd sydd yn amgylchynu'r gymuned a'r byd ar hyn o bryd. Diolchodd i drigolion tref Aberteifi a'r gymuned leol am ddilyn canllawiau aros adre a phellhau cymdeithasol. Llongyfarchiadau i'r grwpiau gwirfoddol sydd wedi eu sefydlu mor gyflym ac effeithiol yn yr ardal am eu gwaith da yn y gymuned. Cydymdeimlwm gyda Mrs Barbara Radley a theulu Mr Martin Radley yn eu profedigaeth; roedd Martin yn ŵr poblogaidd a gweithgar yn y dref ac yn flaenllaw ym mywyd cymdeithasol a dinesig yr ardal.**

The Mayor welcomed the Deputy Mayor and the clerk to the meeting and referred to the insecure times the community and the world are experiencing. Appreciation was expressed for the people of Cardigan and the local area for following the stay at home and social distancing guidelines. Congratulations were offered to the voluntary groups which were established so swiftly and efficiently in the locality for their hard work in the community. Condolences were sent to Mrs Barbara Radley and the family of Mr Martin Radley who passed away so suddenly recently; Martin was a popular and active member of the town and was most prominent in various civic and community events in the area.

## 2. Ymddiheuriadau / Apologies.

## 3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 3 Mawrth.

Confirmation of Minutes of 3 March Council Meeting.

**Cynigiwyd gan y Cyng. Shan Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies bod cofnodion cyfarfod 3 Mawrth yn gywir.**

Cllr Shan Williams proposed that the 3 March council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Clive Davies.

## 5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

**Nid oedd materion o frys yn codi o'r cofnodion.**

There were no urgent matters arising from the minutes.

## 6. Cynllunio / Planning:

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A200186	Land East of Parc Teifi Business Park	Retention of approved agricultural storage shelter and construction of compost toilet building and wood store building and siting of small storage sheds and associated works (in retrospect).	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad; fodd bynnag nid yw yn gefnogol o geisiadau cynllunio gwrtholygol.</i> Council has no objection; however, members are not supportive of retrospective planning applications.
A200240	Llwynpiod, Ferwig Road	Erection of 5 dwellings, details of access.	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad; fodd bynnag, mae yna bryder a fydd afon y Mwldan a Nant y Ferwig yn medru ymdopi â'r dŵr ychwanegol fydd yn rhedeg o'r preswyladau a draeniadau newydd. Rhaid nodi bod tueddiad o orlifo cynyddol yn yr ardal leol.</i>
A200250	Llwynpiod, Ferwig Road	Drainage scheme.	Council has no objection; however there are concerns regarding the capacity of the Mwldan river and Nant y Ferwig to cope with the run-off from these dwellings and the drainage scheme. It should be noted of the future trend of increased flooding in the local area.

## 7. (a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
26/3/20	Siemens: <i>Prydles y llungopiwr</i> / Lease of photocopier	A7	D/D	£150.00 (25.00)
18/3/20	Mrs Rose Brabrook (Galloping Cat): <i>Trwsio clogyn y Maer.</i> Repairs to Mayor's gown	C7	4870	£50.00 (0.00)
7/4/20	Information Commissioner's Office: GDPR / Data Protection Act 2018. <i>Tâl am ailymaelodi</i> / Renewal fee	A12	D/D	£35.00 (0.00)
1/4/20	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor</i> / Rent of Council Office ( <i>Mawrth / March</i> ). <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd</i> /Rent of Conference Room <i>Cyfarfod y Cyngor</i> / Council Meeting (3/3/20) <i>Band Lydan (Ebrill)</i> / Broadband (April)	A9 A9 A20	D/D  4872	£250.00 (0.00) £25.00 (0.00) £20.00 (0.00)
1/4/20	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc</i> / Clerk's Salary ( <i>Mawrth / March</i> )	A5	4871	£763.19 (0.00)
1/4/20	Mrs Eleri Maskell: <i>Oriau gwaith mewn hyfforddiant</i> / Hours worked in training.	A5	4873	£276.95 (0.00)
9/3/20	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd</i> / Simultaneous translation (3/3/20)	A18	4874	£78.30 (0.00)
7/4/20	HMRC: PAYE £571.80, Class 1 NIC £97.20 <i>Ionawr, Chwefror, Mawrth</i> / January, February, March 2020	A16	4875	£571.80 (IT) + £97.20 (NIC) = £669.00 (0.00)
31/3/20	<i>Bachan Deche</i> / Handyperson ( <i>Chwefror a Mawrth</i> / February and March)	A19	4876	£369.60 (61.60)
1/4/20	<i>Un Llais Cymru</i> / One Voice Wales: <i>Tâl Aelodaeth.</i> Membership Fee.	A12	4877	£773.00 (0.00)
11/3/20	Midshire Hardware Support Charge	A7	4879	£141.41 (23.57)
29/2/20	M & E Pearce Ltd – Ref: Info, Signs	B7	4880	£13.47 (2.24)
27/2/20	<i>Argraffwyr E L Jones</i> Printers: <i>Argraffu a Deunyddiau.</i> Stationery and Printing.	A7	4881	£160.80 (26.80)
5/3/20	<i>Cyngor Sir Ceredigion</i> / Ceredigion County Council: <i>Trethi annomestig 2020/21</i> Non Domestic Rates	A9	4882	£642.00 (0.00)

**Cynigiodd y Cyng. Clive Davies bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Shan Williams.**

Cllr Clive Davies proposed that the listed bills be paid; this was seconded by Cllr Shan Williams.

**Derbyniadau/Receipts:**

10/2/20	Lloyds Bank: <i>Llog / Interest</i>	£1.59
9/3/20	Lloyds Bank: <i>Llog / Interest</i>	£1.29
5/2/20	<i>Clwb Bowlio Aberteifi / Cardigan Bowling Club Rhent / Rent 2020</i>	£400.00

**(b) Adroddiad Ariannol 2019-20. Financial Report 2019-20**

**Mae'r adroddiad wedi ei flaenyrru ymlaen llaw i'r cynghorwyr.**

The report had been forwarded beforehand to all councillors.

**Cymeradwywyd bod y cyngor yn derbyn yr Adroddiad Ariannol chwarterol:**

**Cynigiwyd gan y Cyng. Shan Williams; eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies.**

The council approved the quarterly financial report: proposed by Cllr Shan Williams; seconded by Cllr Clive Davies.

**8. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.****(a) Y Cyng. Catrin Miles:**

- (i) Mae bob person sydd wedi derbyn llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (oherwydd eu bod yn "shielding") yn cael galwad ffôn oddi wrth CSC yn cynnig bocs o fwyd – rhad ac am ddim. Mae angen cael y neges allan i bobl sydd wedi derbyn llythyr – ond sydd posib heb gael galwad ffôn. Y rheswm am hyn yw bod nifer o achosion lle nad oes rhif ffôn ar gael ar gyfer y Cyngor Sir. Angen cysylltu ar ebost: clic@ceredigion.gov.uk neu ffonio 01545 570881.
- (ii) Mynwent y Dref: Derbyniwyd gyfarwyddyd i osod arwydd ar y fynwent yn gofyn i bobl beidio â mynychu'r fynwent. Y neges nawr yw peidio â chloi'r fynwent ond rhoi arwydd yn gofyn i bobl gadw dwy medr oddi wrth ei gilydd.

**Nid oedd adroddiadau wedi eu derbyn oddi wrth y Cynghorwyr Elaine Evans a John Adams-Lewis. Yr ydym yn edrych ymlaen i dderbyn eu hadroddiadau y mis nesaf.**

**(a) Cllr Catrin Miles:**

- (i) Every person who has received a letter from the Welsh Government due to shielding advice should be receiving a phone call from the county council offering a free food box. There is a need to spread the message to the people who are in receipt of one of these letters – but perhaps not of a phone call. The reason for this being that in a number of cases there is no phone number available to the authority. Please contact via email clic@ceredigion.gov.uk or phone 01545 570881.
- (ii) Town Cemetery: Instruction have been received from the county council to place a poster requesting people not to enter. The message now is not to lock the cemetery but place a poster requesting people to remain two metres apart.

No reports were received from Cllrs Elaine Evans and John Adams-Lewis; reports will be included in the next meeting.

**9. Gohebiaeth / Correspondence.**

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
1	CSC / CCC (Sara Dafydd): <i>Gorchmynion Mannau Cyhoeddus</i> . Public Space Protection Orders.	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 10/03/2020</i> Forwarded to all councillors on 10/03/2020 <i>Cytunwyd anfon llythyr i barhau gorchmynion gwarchod manau cyhoeddus am dair blynedd eto.</i> It was agreed to request by letter that public space protection orders be continued for a further three years.
2	CSC / CCC (Llywelyn Edwards): <i>Gorchmyn cau ffordd / Road closure order – Feidrfair, Aberteifi - 18.00-06.00 ar/on 09/03/2020 – 10/03/2020</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 10 Mawrth.</i> Forwarded to all councillors on 10 March.
3	CSC / CCC (James Beaumont): <i>Ymgynghoriad Crymu Stryd / Road Hump Consultation.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 10 Mawrth.</i> Forwarded to all councillors on 10 March. <i>Cytunwyd anfon llythyr i gefnogi crymu'r stryd.</i>

		It was agreed to send a letter supporting the creation of a road hump.
4	CSC / CCC (Alan Haird): <i>Tystiolaeth Canlyniadau Cynnal y Cardi</i> . Project Closing Report for Cynnal y Cardi.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 10 Mawrth</i> . Forwarded to all councillors on 10 March. <i>Y Cyng. Clive Davies i drafod yn uniongyrchol ag Alan Haird</i> . Cllr Clive Davies to discuss directly with Alan Haird.
5	CSC / CCC (Rhodri Llwyd): <i>Trefniadau ar gyfer Ffair Aberteifi – Marchnad Stryd</i> . Arrangements for Cardigan Fair – Street Market.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 13 Mawrth</i> . Forwarded to all councillors on 13 March. <i>Cytunwyd anfon llythyr i gefnogi rhoi'r trefniadau ar gyfer marchnad stryd ffair Aberteifi i sefydliad leol</i> . It was agreed to send a letter supporting the arrangements for the Cardigan Fair street market be given to a local organisation.
6	CSC / CCC (Nia Jones): <i>Porth Cymorth Cynnar – Adnabod y bobl yn eich cymuned sydd angen cymorth</i> . Identifying the people in your communities who need assistance.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 30 Mawrth</i> . Forwarded to all councillors on 30 March. <i>Nodwyd</i> . Noted.
7	CSC / CCC (Nia Jones): <i>Rhestr ffrydiau ariannu mewn argyfwng o CAVO</i> . List of emergency funding streams from CAVO.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 30 Mawrth</i> . Forwarded to all councillors on 30 March. <i>Nodwyd</i> . Noted.
8	CSC / CCC (Rhodri Llwyd) : <i>Dau ymateb i gais y cyngor i newid y geiriad ar yr arwyddion i'r ganolfan iechyd newydd</i> . Two responses to our request to change the wording on the existing signage to the CICC.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 4 Ebrill</i> . Forwarded to all councillors on 4 April. <i>Cytunwyd anfon llythyr i hysbysu ein siomedigaeth</i> . It was agreed to send a letter expressing our disappointment.
9	CSC / CCC (Nia Jones): <i>Sul y Blodau</i> . Palm Sunday.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 4 Ebrill</i> . Forwarded to all councillors on 4 April. <i>Gweler pwynt 8. (a) (ii)</i> . See point 8. (a) (ii).
10	<i>Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys. Rhifyn Mawrth o gylchlythyr y Cyswllt Cymunedol</i> . Police and Crime Commissioner Dyfed-Powys. March edition of the Community Link newsletter.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 10 Mawrth</i> . Forwarded to all councillors on 10 March.
11	Flag Funding Teifi Community: <i>Copi o lythyr gan y Cyng. Catrin Miles yn cefnogi cais am grant anfonwyd gan Mrs Jane Roche, Gorffwysfa'r Pysgotwr</i> . Copy of the supporting letter sent by Cllr Catrin Miles in support of the grant application made by Mrs Jane Roche, Fisherman's Rest.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 13 Mawrth</i> . Forwarded to all councillors on 13 March. <i>Mae llythyr cefnogol o'r cyngor wedi ei anfon ar 13/3/20</i> . Letter of support from the council was forwarded on 13/3/20.
12	<i>Llywodraeth Cymru / Welsh Government (Ken Skates)</i> . <i>Ateb i'r e-bost danfonwyd o Gyngor Tref Aberteifi yn gofyn i lleihau cyfyngiad cyflymdra o Heol Caemorgan i Benyparc</i> . Reply to the email sent from Cardigan Town Council requesting to reduce the speed limit from Caemorgan Road to Penyparc.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 20 Mawrth</i> . Forwarded to all councillors on 20 March. <i>Cytunwyd anfon llythyr i hysbysu ein siomedigaeth</i> . It was agreed to send a letter expressing our disappointment.
13	<i>Partneriaeth Tref Aberteifi / Town Centre Partnership: Diweddariad misol</i> . Monthly update.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 10 Mawrth</i> . Forwarded to all councillors on 10 March.
14	Janet Barber, Avalon, Cnwcydintir Lane. <i>Cais yn gofyn am ddiweddariad i osod lamp golau newydd ar y lôn</i> . Request for confirmation of completion of works to the street lighting.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 17 Mawrth</i> . Forwarded to all councillors on 17 March. <i>Clerc i anfon llythyr yn cadarnhau bodg orchymyn wedi mynd at SSE i ofyn iddynt gywiro'r goleuadau stryd</i> . Clerk to reply confirming that a request has been sent to SSE to proceed with the necessary works.
15	Meg Plumb 5G awareness event in the Guildhall.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 17 Mawrth</i> . Forwarded to all councillors on 17 March.
16	Sioned Workman – <i>Cais am leoliad cynllun gwaith</i> . Request for a work placement.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 4 Mawrth</i> . Forwarded to all councillors on 4 March. <i>Clerc i anfon llythyr i egluro amhosibilrwydd yn y sefyllfa presennol</i> . Clerk to reply that regretfully due to current circumstances the request is impossible.

17	George Davies & Evans. <i>Holiad am rent y Clwb Bowlio.</i> Enquiry regarding Bowling Club Rent.	<i>Atebwyd gan y Clerc.</i> The Clerk has replied.
18	<i>Heddlu Dyfed-Powys.</i> Dyfed- Powys Police. <i>Cyfeirnod am ddiwyddiad ar Bont Pontycleifion.</i> Crime reference number for incident on Pontycleifion Bridge.	<i>Er gwybodaeth i'r clerc.</i> For the information of the clerk.
19	Teenage Cancer Trust. <i>Cais i drafod cydweithio i'r dyfodol.</i> Request meeting with Mayor Elect to enable future collaboration.	<i>I'w trafod.</i> To be discussed. <i>Nodwyd gan y Maer.</i> Noted by the Mayor.
20	<i>Eisteddfod Genedlaethol Cymru.</i> <i>Gohirio yr Eisteddfod.</i> Postponement of the Eisteddfod.	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 30 Mawrth.</i> Forwarded to all councillors on 30 March.
21	<i>CSC Adain Cau Ffyrdd/CCC Road Closures. Gwaith ar frys</i> <i>Crud yr Awel, Llandygywdd, noder y ffordd ganlynol ar gau</i> <i>dros dro.</i> Emergency works Crud yr Awel, Llandygywdd, please be advised of the following road closure. 9.00-18.00 6/4/20-7/4/20.	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 6 Ebrill.</i> Forwarded to all councillors on 6 April.
22	<i>Cylchlythyr mis Mawrth CIC Hywel Dda.</i> Hywel Dda CHC's March newsletter.	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 6 Ebrill.</i> Forwarded to all councillors on 6 April.
23	<i>C.F.F.I Ceredigion YFC.</i> <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion.</i> To be discussed Grants Sub-committee.
24	<i>Cynllun Chware Aberteifi / Cardigan Playscheme</i> <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion.</i> To be discussed Grants Sub-committee.
25	Singing Village. <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion.</i> To be discussed Grants Sub-committee.

#### 10. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

##### **Penderfyniad ynglŷn â blodau'r dref.**

**Cytunwyd i baratoi blodau'r dref fel arfer ond Gerddi Fictoria ar raddfa llai gan ei bod o dan glo ar hyn o bryd. Mae John Morris yn hapus i gyflawni'r gwaith yn seiliedig ar cael gafael yn y planhigion sydd angen.**

Decision regarding town centre flowers.

It was agreed that the town centre flowers be prepared as usual and Victoria Gardens be prepared on a reduced scale due to them presently being locked. Mr John Morris has confirmed that he is happy to proceed with the work dependent on being able to source the required plants.

#### 11. Datganiad chwarterol y Maer ynglŷn â diogelwch y cadwyni maerol.

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chain of office.

##### **Sicrhaodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.**

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

#### 12. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

**(a) Rhodd i'r Banc Bwyd. Oherwydd yr amgylchiadau eithriadol, trosglwyddwyd £10,000 o gyfrif banc HSBC i alluogi'r cyngor i gynorthwyo mewn argyfwng. Cytunwyd cyfrannu rhodd o £5,000 i'r Banc Bwyd ar dymuniadau cyngorwyr y dref – cadarnhawyd trwy cyfatebiaeth. Cynnigwyd yn swyddogol gan y Cyng. Shan Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies. Diolchir i'r holl gynghorwyr am eu hymateb cyflym i gefnogi'r rhai sydd mewn angen yn ein cymuned.**

Donation to the Food Bank. Due to the prevailing extraordinary circumstances, £10,000 has been transferred from reserves in HSBC to enable the council to donate £5,000 to the Food Bank at the wish of the councillors – confirmed through correspondence, at this time of

crisis. The decision was formally proposed by Cllr Shan Williams and seconded by Cllr Clive Davies. Gratitude is extended to all councillors for their swift action in their endeavour to support those in need in our community.

**(b) Diolch i'r Cyng. Catrin Miles am dynnu sylw'r cyngor sir at strydoedd brwnt Aberteifi. Mae'r cyngor yn cefnogi ei safbwynt.**

Cllr Catrin Miles was thanked for expressing concern over the dirty state of the streets of Cardigan to the county council. The council agrees with her views.

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 6.00yh.***  
*There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 6.00pm.*

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....